# GWYN JONES yn pori mewn cyfrol brin

# ATGOFION AM HEN DŶ CYMREIG

DRO YN ÔL daeth cyfrol fechan chwedeg chwech tudalen yn mesur tua 12 × 15cm. i'm meddiant. Cafodd y gyfrol ei hargraffu'n breifat yn 1904 gan Harrison a'i Fab, St. Martins Lane, Llundain ar bapur o waith llaw a'i rwymo mewn lledr coch gan gwmni Palmer Howe, Manceinion.

I mi mae'n rhyfeddod i'r gyfrol ddod i'm meddiant gan mai dim ond chwe chopi ar hugain o *Recollections of an Old Welsh House* a argraffwyd ar gyfer ei ddosbarthu ymysg aelodau teulu'r awdures, Alicia Roberts a disgynyddion plant Pen y Bryn, Abergele. Mae hanes teulu Alicia yn un diddorol a chofnodwyd peth ohono gan ei nai, David Swynford Foulkes-Roberts, 1899-1988 mewn dyddiaduron hynod iawn a gyflwynwyd i Archifdy Clwyd, Rhuthun.

Ganwyd Alicia yn Gwylfa, Sgwâr Bron Hwylfa, Llanelwy yn 1869 yn ferch Peter a Sarah Jane Roberts. Fferyllydd oedd Peter wrth ei alwedigaeth, ynad heddwch ac aelod o Henaduriaeth Dyffryn Clwyd.

Un o saith o blant oedd Alicia gyda'i brawd hynaf, Arthur Foulkes-Roberts, F.S.A., yn gyfreithiwr llwyddiannus yn Ninbych ar un cyfnod. 'Roedd yn hynafiaethydd brwd, yn aelod o'r Cambrian Archaeological Association gan weithredu fel ysgrifennydd lleol i'r gymdeithas.

Oherwydd ei ddiddordebau daeth i gysylltiad â phobl fel S. Baring-Gould, Syr Edward Annwyl, Syr J. E. Lloyd, W. F. Skene, John Fisher a hynafiaethwyr amlwg eraill y dydd. Byddai'r rhain yn aros yn achlysurol yn ei gartref.

Bu ganddo ar un cyfnod, cyn ei gyflwyno i'r Llyfrgell Genedlaethol gopi o Feibl yr Esgob William Morgan.

* * * *

MEDDYG yng Nghaersws ac yna ym Mhontypridd oedd ei brawd, Llewelyn. Fel Arthur aeth yntau i Goleg Aberystwyth am flwyddyn. Hen lanc oedd y brawd arall, Robert Davies Roberts, fu'n gweithio mewn banciau yn Rhydychen, Manceinion a Bethesda lle bu farw yn 1945.

Casglodd fedalau a darnau o arian bath a gyflwynwyd i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ar ei farwolaeth. Cyhoeddodd erthygl yn *Wales* ar arian tocyn yng Nghymru ym 1895. Ar droad y ganrif cyhoeddodd *Y Cerdyn Post Cymreig* ac arno lun y ddraig goch a'r geiriau 'Y ddraig goch ddyry gychwyn' ynghyd â'r cyfarwyddiadau wedi eu hargraffu yn Gymraeg (oes gan rhywun gopi?).

Anfonwyd Alicia i Ysgol Dr John Williams, Dolgellau, yn 1881, yn 1894 aeth i'r Almaen lle bu'n dysgu Saesneg yn gyfnewid am wersi Almaeneg; rhoddai wersi canu yn ogystal â Lladin hefyd. Treuliodd gyfnodau yn Ffrainc a'r Yswistir. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf 'roedd yn byw yn Llundain gan weithio yn y Swyddfa Sensoriaeth. Parhaodd i roddi gwersi yn ystod y dauddegau ac wedi hynny, ond ni wn ddim o'i hanes wedi 1925.

Yn ystod y pumdegau 'roedd hi mewn cartref henoed yng Nghaerfaddon a'i dymuniad oedd cael marw yng ngolwg Bryniau Clwyd yr hyn a wireddwyd pan fu farw yng nghartref ei nith yn Ninbych yn 1961 a'i chladdu gyda'i rhieni yn Llannefydd.

Cyhoeddodd Alicia ddwy erthygl cyn cyhoeddi ei phrif waith yn 1904. Llyfr o atgofion plentyndod am Roe Gau, Llanelwy, cartref ei hewythr, Richard Davies ei wraig Jane a'i chwaer hithau, Sarah, yw *Recollections of an Old Welsh House.* 'Roedd y ddwy wraig yn chwiorydd i nain Alicia, Alicia Foulkes, Llechryd, Llannefydd, y tair ohonynt ymysg deunaw o blant Pen y Bryn, Abergele.

I Alicia rhoddwyd y dasg o groniclo'r atgofion plentyndod gan ei brodyr *Old Buck* a *Numismatist* fel y cyfeirir atynt, sef Arthur a Robert. Gellir dweud bod y teulu yn un hynod iawn, yn deulu clòs a rhyw elfen ecsentrig yn perthyn iddynt gydag ymdeimlad dwfn tuag at hanes a thraddodiad. Cymeriadau talentog, tyner, hoffus, aelodau o ddosbarth canol llwyddiannus Cymreig.

* * * *

CEIR yn y gyfrol ddarlun clyd, diddan a delfrydol efallai o blentyndod yn y 1860-70au. Oherwydd ei naws, llyfr i'w ddarllen wrth y tân ar noson aeafol yw *Recollections* pan â Alicia drwy ychydig o hanes y deunaw o blant Pen y Bryn cyn mynd ymlaen i drafod Roe Gau a'i breswylwyr.

A hithau wedi tywyllu yn Roe Gau, disgleiriai'r golau yn y canhwyllbrennau arian a'r tân yn siffrwd yn gymysg â thipiadau'r cloc. Eisteddai Uncle Davies yn ei gadair a'r ddwy gath drilliw wedi ymuno yn y cwmni yn groes i'r rheolau; eu pawenau wedi eu tynnu atynt a'u llygaid ynghau. Nid oedd Uncle Davies yn hoff o'r cathod ond fe'i goddefai hwy. Eisteddent bob amser yn gytbwys un ar y naill lin a'r llall ar yr un arall.

'Roedd yno gerflun o Dic Aberdaron ac ar ben hwn cadwai Anti Sarah ei het arddio. Arferent gael te ar y lawnt ac o dan y coed masarn a ffawydd sefydlodd y plant fynwent lle claddwyd pob caneri gydag urddas.

Ar ddydd Nadolig âi holl deulu Gwylfa i Roe Gau; dyma'r unig ddiwrnod o'r flwyddyn y byddent yn canu cloch y drws ffrynt ac y deuai'r preswylwyr i'w croesawu yn ffurfiol. Oddi mewn, addurnwyd y tŷ â chelyn ac oherwydd lleoliad cysgodol y lle byddai'r plant yn mynd i chwilio am eirlysiau neu friallu.

Disgwylid i'r plant roi tipyn o adloniant i'r oedolion trwy ganu ac adrodd, ond uchafbwynt nos Nadolig i'r plant oedd clywed Uncle Davies yn adrodd hen straeon ac atgofion.

Soniai am y cyfnod pan ddechreuodd pobl Dyffryn Clwyd yfed te. Cofiai un hen wraig yn berwi'r te yn ofalus cyn taflu'r dŵr a thaenu'r te tros ei brechdan! Cofiai Uncle Davies amdano'n mynd i weld crogi cyhoeddus yng Nghaer ond, cyndyn iawn ydoedd o adrodd y stori hon.

Pan ymwelai un o'r dugoedd brenhinol â'r dyffryn byddai prinder wyau yn y cylch gan fod pobl yn eu cadw i'w gwerthu i'r tŷ y byddai'r dug yn aros ynddo.

Hoffai'r plant glywed straeon am gors Rhuddlan, straeon arswyd a rhyfeddod, am longau a gollwyd mewn stormydd, a'r wraig gyfoethog hyf honno oedd yn ffoi rhag y pla yn ei choits gan dybied mai'r tlawd fyddai'n marw o'r pla ond ar gors Rhuddlan cafodd y pla a'r angau afael arni hithau yn ei cherbyd.

Yn y dyddiau hynny peth cyffredin oedd gweld coits yn Llanelwy a'r cerbyd hwnnw yn ffurfio rhan o un o hoff storïau'r plant am forwyn rhyw offeiriad aeth at y sipsiwn i glywed ei ffortiwn. Dywedwyd wrthi:

*You shall ride in your coach,*
*In a coach and four*
*In a coach and six*
*From your master's door.*

Ymhen ysbaid wedi clywed y broffwydoliaeth bu farw gwraig yr offeiriad a phriododd y forwyn — dyna'r goits gyntaf. Aeth cryn amser heibio cyn y dyrchafwyd yr offeiriad yn esgob a chanddo'r hawl i gael pedwar ceffyl i lusgo'i gerbyd. Disgwyliai'r gyn-forwyn weld ei gŵr yn cael ei ddyrchafu'n archesgob a chael chwe march. Ofer a hir fu'r disgwyl gan i'r forwyn farw.

Ar ddydd ei hangladd oherwydd bod gallt serth i'r gadeirlan a'r ceffylau'n analluog i lusgo'r hers bu'n rhaid cael chwe march i fynd â hi ar ei thaith olaf; felly y cyflawnwyd proffwydoliaeth y sipsiwn.

* * * *

STORI ysbryd oedd y stori arall boblogaidd a adroddid ar aelwyd Roe Gau ar nos Nadolig gan mlynedd a mwy yn ôl a phob gair o stori *'the man with the cryman'* yn wir.

Flynyddoedd yn ôl 'roedd hen bregethwr ar daith bregethu a stopiodd mewn tafarn i gael gorffwys, tamaid a chwrw ac ymborth i'w farch. Wrth fwyta sylwodd ar ŵr a chryman ganddo yn ei wylio. Dechreuodd yr hen ŵr deimlo'n anesmwyth gan fod ychydig arian yn ei feddiant, cydnabyddiaeth am ei wasanaeth. Prysurodd ymlaen â'i fwyd i gael ymadael â'r dafarn rhag ofn i'r gŵr crymanog ymosod arno.

'Roedd hi'n nos a'r daith o'i flaen yn un hir trwy anialdir a chychwynnodd ar fyrder. Ymhen ysbaid gwelodd y gŵr â'r cryman yn ei ddilyn o hirbell, ac ar hyn ymddangosodd gŵr ar farch gwyn ger ei ymyl.

Wrth weld hyn trôdd y gŵr a'r cryman yn ei ôl, rhoddodd yr hen bregethwr ochenaid o ryddhad a cheisiodd dynnu sgwrs a'i gyd-deithiwr ond ni châi unrhyw ymateb ganddo. Ac yntau'n parablu, diflannodd y marchogwr ar y ceffyl gwyn.

* * * *

O UN I UN bu farw preswylwyr Roe Gau, Sarah yn 1883, a Richard Davies yn 1884 gan adael ei wraig, Jane, yn weddw hyd 1898 pryd y bu farw yn gant namyn un. Ymddengys mai hen wraig garedig oedd Jane, parod i roi ceiniog i gardotwyr ond, ceisiwyd ei pherswadio i gael ci i roi terfyn ar eu hymweliadau a'r plant dwyn afalau. Gwrthod wnaeth yr hen wraig er mawr ryddhad i'r ddwy gath drilliw!

Penderfynwyd heb ymwybod i Jane gael plismon i guddio yn y cwt glo i ddisgwyl i dramp ddod heibio. Pan ddaeth un i'r golwg llamodd y glas ar ei ôl ond yn aflwyddiannus. Ni welwyd yr un crwydryn am beth amser wedi hyn — canfuwyd pen plismon wedi ei ysgythru ar baent y drws cefn, 'roedd hyn yn ddigon o rybudd.

Ar ddydd calan ymgasglai plant a hen wragedd Llanelwy i iard Roe Gau i gael calennig. Taflai'r hen wraig geiniogau trwy'r ffenestr a cheisiai'r plant fod yn gyfrwys trwy newid cap a chrafat i dwyllo Jane, a'r forwyn yn ceisio sicrhau bod pawb yn cael chwarae teg gan fod golwg Jane bellach yn wan.